EUR-07-02(p8)

**COMMITTEE ON EUROPEAN AFFAIRS**

| | |
|---|---|
| **Date** | **5 Rhagfyr 2002** |
| **Time** | **2:00pm** |
| **Venue** | **Ystafell pwyllgora 3&4** |
| **Title** | Pwyllgor y Rhanbarthau (CoR) - Cynrychiolaeth Cynulliad Cymru 2002 |

- Ym mis Chwefror ymgymerais â bod yn aelod llawn y Cynulliad ac ar ôl ychydig oedi, gwnaeth Janet Davies AC ddod yn aelod wrth gefn. Rwy'n gwasanaethu ar y Pwyllgor Addysg a Diwylliant ac mae Janet Davies ar y Pwyllgor Polisi Cydlyniad Tiriogaethol.
- Ar 6-7 Chwefror cynhaliwyd sesiwn agoriadol mandad y CoR am y cyfnod 2002-2006. Mewn cytundeb gyda grwpiau gwleidyddol PES ac EPP, etholwyd Sir Albert Bore, Arweinydd Cyngor Dinas Birmingham (UK/PES) fel llywydd y CoR am gyfnod o ddwy flynedd.
- Gwnaeth y sesiynau llawn eraill ar 13-14 Mawrth, 15-16 Mai, 3-4 Gorffennaf, 10 Hydref a 20-21 Tachwedd roi lle blaenllaw, fel a ddisgwyliwyd, i faterion Cyfansoddiadol fel Llywodraethu'r UE, y drafodaeth ar y Confensiwn ar Ddyfodol Ewrop, ac Ehangu.
- Cynhaliwyd sesiynau llawn 15-16 Mai yng nghysgod canlyniadau etholiadau arlywyddol Ffrainc. Condemniodd Llywydd y CoR y cynnydd yn eithafiaeth a senoffobia, gan ychwanegu y dylai digwyddiadau yn rownd gyntaf canlyniadau etholiad arlywyddol Ffrainc fod yn rhybudd i'r rheini sydd â gwerthoedd democrataidd.
- Ar 11 Hydref cynhaliwyd gwrandawiad arbennig i drafod yn benodol rôl y rhanbarthau yn y broses o integreiddio Ewrop, a barn ddrafft y CoR (Cofnodydd: yr Arglwydd Tope) ar Adroddiad y Senedd Ewropeaidd ar Rôl y Rhanbarthau yn y broses o Integreiddio Ewrop. Byddaf yn cylchredeg y Farn derfynol wedi iddi gael ei chyhoeddi.
- Bydd cyfarfod llawn fis Tachwedd yn aros mewn cof oherwydd y streic a wnaeth darfu ar y sesiwn.

- Yn ystod y flwyddyn mae'r CoR wedi clywed cyflwyniadau gan y Comisiynydd Loyola de Palacio (Cysylltiadau â'r Senedd Ewropeaidd, Trafnidiaeth, Ynni), y Comisiynydd Verheugen (Ehangu). y Comisiynydd Vitorino (Cyfiawnder a Materion Cartref), Mr Martin (Dirprwy Lywydd Cyntaf y Senedd Ewropeaidd), Mr Göke Frerichs, Llywydd y Pwyllgor Economaidd a Chymdeithasol a'r Dirprwy Lywydd Neil Kinnock. Gwnaethom hefyd dderbyn datganiadau gan gynrychiolwyr Llywyddiaethau Sbaen, Denmarc a Groeg.

- Mynychais y Pwyllgor Addysg a Diwylliant ar 22 Mawrth, 23 Mai, a 30 Medi. Roedd trafodaethau'r pwyllgor yn cynnwys Blwyddyn Ewropeaidd Addysg trwy Chwaraeon 2004, Dysgu Gydol Oes, Ieuenctid Ewrop, e-Ewrop a Chynllun Gweithredu ar gyfer Sgiliau a Symudedd.

Sylw: mae'r CoR wedi cynnal ei fusnes mewn modd bywiog a phroffesiynol dan arweiniad Albert Bore. Mae Bore wedi cyflwyno disgyblaeth yr ydym yn ei chroesawu: mae cyfarfodydd yn dechrau ar amser, yn cael eu cadeirio'n gadarn ac mae materion yn dod i gasgliad clir. Mae statws uchel gan gynrychiolaeth y DU ac mae'n cymharu'n ffafriol â'r gwledydd eraill.

Mae'r Gynhadledd wedi peri i'r CoR feddwl yn ddwys ynghylch beth fyddai ei rôl a'i ffurf orau ar gyfer y dyfodol. Mae'r rhanbarthau â phwerau deddfu yn pwyso am gael mwy o ddweud er mwyn adlewyrchu eu rôl wrth gyflawni polisïau'r UE, ond mae rhai pobl hefyd am barhau â'r undod rhyngddynt hwy a chydweithwyr yn llywodraeth leol a bwrdeistrefol. Nid oes un cynllun clir, pendant ar gyfer newid, ac mae'n siwr y bydd mwy o aneglurder eto yn digwydd yn sgil ehangu.

Rwyf wedi cytuno ar ddull o gylchredeg Sylwadau i'r adrannau priodol a Chadeiryddion y Pwyllgorau fel y gellid ystyried datganiadau'r CoR cyn bod y Cynulliad yn gwneud unrhyw benderfyniadau polisi.

Rosemary Butler AC